
amgueddfa genedlaethol caerdydd
national museum cardiff

# TRYSORAU

## ANTUR ARCHAEOLEG



### ALLWEDD GWEITHGAREDDAU


trafodwch


edrychwch yn ofalus


tynnwch lun

### Trysor?

Mae'r gair trysor yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Beth ydych chi'n feddwl mae'r gair yn ei olygu? Beth sy'n drysor i chi? Trafodwch eich syniadau gyda'r bobl o'ch cwmpas.

# TRYSORAU CYMRU

## Y sawl sŷ'n canfod sŷ'n cadw?

Cafodd nifer o'r trysorau hyn eu darganfod ar siawns.
Dychmygwch sut deimlad fyddai darganfod trysor archaeolegol.
Beth fyddech chi'n ei wneud?
Trafodwch eich syniadau gyda'ch grŵp.

## Ceiniogau yn gliwiau


Gall hen geiniogau ddweud llawer wrthym. Beth am ddylunio un eich hun i ddweud rhywbeth wrth archaeolegwyr y dyfodol am fywyd ym Mhrydain yn 2016.




# BYDOEDD HYNAFOL - GROEG

## Potiau wedi'u paentio

Gall y delweddau ar y potiau hyn roi llawer o gliwiau i ni am arfwisg, dillad, crefydd a chwedlau Groegaidd. Defnyddiwch y lluniau ar y potiau hyn fel man cychwyn i adrodd stori i'ch teulu. Cymrwch eich tro i ddarllen gwahanol rannau o'r chwedl.







## Potiau yn gliwiau

Mae'r potiau hyn yn rhoi gwybodaeth ynghylch bywyd yn yr Hen Roeg. Pa addurniadau fyddech chi'n eu rhoi ar botyn yn disgrifio bywyd heddiw? Tynnwch lun ar y potyn hwn...

## Hieroglyffau

Roedd yr Eifftiaid yn defnyddio hieroglyffau, allwch chi ddeall y neges ar y bedd hynafol hwn? Defnyddiwch yr allwedd i'ch helpu.



## Y byd nesaf

Roedd yr Eifftiaid yn credu mewn bywyd wedi marwolaeth, felly roeddent yn claddu eu hanwyliaid gyda phopeth fyddai ei angen arnynt yn y bywyd nesaf. Beth fyddai ar eich rhestr chi? Rhannwch eich syniadau gyda'r bobl o'ch amgylch.

# TIROEDD HYNAFOL - CYN-GOLUMBAIDD

## Lle mae'r wynebau?

Mae gan lawer o'r gwrthrychau hyn wynebau arnynt, sawl un allwch chi eu gweld? Allwch chi gopïo eu hwynebau?










# DIWYLLIANT POBLOGAIDD

Mae nifer o'r gwrthrychau a'r diwylliannau a welsoch heddiw wedi ysbrydoli ffilmiau a llyfrau. Dyluniwch boster ffilm neu glawr llyfr wedi'i seilio ar eich antur archaeolegol heddiw.



## Rhifolion Rhufeinig

Weithiau bydd archaeolegwyr yn datrys codau.

Mae'r oed ar garreg fedd Rufeinig yn dod ar ôl enw'r person sydd wedi'i gladdu.

I gyfrif yr oed, adiwch y rhifolion Rhufeinig.
L= 50 a X=10, felly mae LXXX yn L + X + X + X sydd yn 50+10+10+10 = 80

Allwch chi gyfrifo gwerth y rhifau Rhufeinig hyn? Cofiwch adio'r rhifolion at ei gilydd:

CVIII

XXXVII

MMXVI

XI

CXXI



*Mae VIX.AN yn golygu 'bu fyw, mewn blynyddoedd'*

*Rhifolion yw'r llythrennau nesaf – LXXX ar y garreg hon.*

*Caiff geiriau eu rhannu gan ddotiau, trionglau neu ddail.*

1 = I 2 = II 3 = III

4 = IV 5 = V 6 = VI

7 = VII 8 = VIII 9 = IX

10 = X 50 = L 100 = C

500 = D 1000 = M

Rydych newydd fod ar dipyn o daith – wedi teithio drwy filoedd o flynyddoedd gan archwilio hanes pobl drwy'r gwrthrychau a adawsant ar ôl. Beth fyddech chi'n ei roi i amgueddfa i helpu pobl yn y dyfodol i ddeall bywyd heddiw?





